**Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Gwella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl**

**This response was submitted to the Health and Social Care Committee consultation on Improving access to support for unpaid carers.**

**UC04: Ymateb gan: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) | Response from: Wales Council for Voluntary Action (WCVA)**

---

# Gwella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl

## YMATEB GAN CGGC

1) Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r mudiad aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Ein diben yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd. Nod Prosiect Iechyd a Gofal CGGC yw creu cysylltiad gwell rhwng y sector gwirfoddol a'r system iechyd a gofal cymdeithasol.

2) Diolchwn i'r Pwyllgor am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar wella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl.

3) Credwn fod y mudiadau hynny sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda gofalwyr mewn sefyllfa well na ninnau i ymateb i'r rhan fwyaf o'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn dymuno eu trafod. Fodd bynnag, hoffem wneud rhai pwyntiau ar un maes a amlygir gan yr ymgynghoriad: rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth ddarparu cymorth i ofalwyr di-dâl, ac effeithiolrwydd ymarferion comisiynu cyfredol ar gyfer gwasanaethau.

4) Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector, a ddiwygiwyd yn ddiweddar, yn nodi egwyddorion sy'n dangos sut dylai cyllid a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru, a chyllid Llywodraeth Cymru a gyflwynir gan gyrff eraill yn y sector cyhoeddus, gyllido'r sector gwirfoddol mewn modd mwy hirdymor, cynaliadwy ac effeithiol.

5) Wrth gomisiynu gwasanaethau sy'n cefnogi gofalwyr di-dâl, mae'n hanfodol bod comisiynwyr yn dilyn pum egwyddor y Cod Ymarfer er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i'r rheini sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny. Yr egwyddorion hyn yw:

- Sgyrsiau cynnar a pharhaus – sicrhau ymgysylltiad ystyrlon a rheolaidd rhwng cyllidwyr a chyrff y sector gwirfoddol
- Gwerthfawrogi a chanlyniadau – sicrhau bod penderfyniadau cyllido yn seiliedig ar ystyriaethau eang o ganlyniadau cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol a gwerth economaidd.
- Dulliau cyllido priodol – sicrhau bod cyllidwyr yn ystyried yr holl opsiynau ac yn dewis y dull(iau) priodol i gyflawni'r canlyniadau cytunedig yn effeithiol.
- Hyblygrwydd – sicrhau y gall y cyllidwr a'r mudiadau a gyllidir awgrymu addasiadau i gytundebau a chyflenwi os oes tystiolaeth o amgylchiadau i gefnogi'r angen.
- Tegwch – sicrhau mynediad teg i bawb, gan greu amgylchedd cyllido cymesur, sy'n cael gwared â rhwystrau i gynhwysiant ac yn meithrin cefnogaeth.

6) Dylai Comisiynwyr hefyd lynu wrth y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth. Nod y fframwaith hwn yw lleihau cymhlethdod mewn comisiynu, hwyluso cysondeb mewn arferion comisiynu ac ail-gydbwyso comisiynu i ganolbwyntio ar ansawdd a chanlyniadau.

7) Mae'r fframwaith hwn yn mynnu bod comisiynwyr yn ymwreiddio'r saith egwyddor yn eu harferion. Yr egwyddorion hyn yw:

- Cydberthnasau gofalgar, tosturiol a theg a ddaw yn sgil cyd-gynhyrchu cynhwysol.
- Arweinyddiaeth effeithiol, gynhwysol, tryloyw a gonest.
- Cydweithio trwy rannu risgiau, adnoddau ac asedau.
- Ystyried gwerth drwy lygaid gofal a chymorth diogel, o ansawdd uchel sy'n cyflawni canlyniadau o bwys sy'n gwella gwerth cymdeithasol.
- Gofal a chymorth cynaliadwy wedi'u hadeiladu ar waith teg a phrisio teg.
- Cynllunio ar gyfer anghenion presennol a chenedlaethau'r dyfodol.
- Dangos tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio drwy storïau a ffigurau.

8) Argymhellwn:

    - y dylid glynu wrth y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth a chyflawni canlyniadau gwell i ofalwyr di-dâl, a
    - bod y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod gwasanaethau a ddarperir gan y sector gwirfoddol yn gynaliadwy ac yn diwallu anghenion hirdymor gofalwyr di-dâl

*David Cook*
*Swyddog Prosiect Iechyd a Gofal Cymdeithasol CGGC*
[redacted]
*Awst 2025*